

## CAMU a Dyfodol Eglwys Bresbyteraidd Cymru



**'Rwyf am weld eglwysi y bydd plant, pobl ifanc, teuluoedd ac oedolion wrth eu bodd yn perthyn iddynt, eglwysi y byddant wrth eu bodd yn eu mynychu.'**

### Gweld ein hamgylchiadau

Dyweddodd Nehemeia, 'Oni welwch y trafferth yr ydym ni ynddo'?. Ydan ni'n gweld y drafferth y mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru ynddo?

Os nad ydan ni, mae'n rhaid ein bod yn byw ar blaned arall neu ddimensiwn arall mewn gwirionedd!

Mae pawb ohonom yn gwybod ein bod mewn dyfroedd dyfnion fel enwad. Gwyddom am yr ymdrech y mae rhai unigolion yn ei wneud i newid pethau ac y mae rhai newidiadau rhagorol eisoes wedi digwydd. Mae'n wfreiddiol gweld pobl ifanc yn ymroi i wasanaethu'r Arglwydd Iesu a gweld ymgeisywyr newydd am y weinidogaeth.

Ond beth am ein Cristnogaeth ar lawr gwlad?

### Her o'r Gymanfa Gyffredinol

Mae un penderfyniad ar y mater hwn a ddaethpwyd iddo yn y Gymanfa Gyffredinol eleni, yn galonogol iawn:



*'Yna, dyma fi'n dweud wrthynt: "Dach chi'n gwybod pa mor anodd ydi pethau yma: mae Jerwsalem yn adfeilion a'i giatiau wedi eu llosgi. Dewch! Gadewch inni ail-adeiladu wal Jerwsalem a dod â'r sefyllfa warthus yma i ben". Dywedais yr banes wrthynt, fel roedd Duw wedi bod gyda mi, a beth roedd y brenin wedi dweud wrtha'i. A dyma nhw'n ymateb – "Gadewch inni ddechrau adeiladu ar unwaith. A dyma nhw'n annog ei gilydd i fynd ati i wneud y gwaith pwysig hwn."*

Nehemeia 2:17-18 (beibl.net)

### 'Ein Gweithwyr Cenedlaethol

- Derbyniwyd adroddiad gan is-grŵp oedd yn edrych ar y modd y mae'r Eglwys yn buddsoddi mewn 'Gweithwyr Cenedlaethol', a sut y mae gwneud y defnydd gorau o'r rhain wrth edrych ymlaen.
- Gan fod y 'Gweithwyr Cenedlaethol' yn cynnwys ein swyddi gweinyddol, mae rhan helaeth o'r adroddiad yn edrych ar oblygiadau hyn, ac ar opsiynau posibl i'r dyfodol.
- Yr oedd awydd clir i bwysleisio'r angen i ddiogelu fod ein holl weithgarwch yn y maes hwn yn cael ei anelu at alluogi ein haelodau yn eu heglwysi yn lleol. Yr oeddem hefyd yn ymwybodol o'r ffyrdd amrywiol y gwelir ymdrech mewn rhai Henaduriaethau yn benodol i ddaearu y gwaith yn lleol, gan gyfeirio adnoddau i'r cyfeiriad hwnnw.
- Mae'r Grŵp yn argymhell y dylai'r Gymanfa Gyffredinol:

(parhad ar dudalen 2)

## Beth am baned, neu hyd yn oed ddisgled?

Rwy'n cofio ymweld â sawl capel yn ystod apêl *Viva Guatemala*, eglwysi bach heb fawr o aelodau, a'r swyddogion yn dweud wrthyf nad oedd modd iddyn nhw gyfrannu fawr at yr apêl am nad oedd y 'manpower' (people power!) ganddyn nhw i gynnal unrhyw ddigwyddiad codi arian.

Ydy hynny'n wir amdanoch chi eleni wrth i chi ystyried Apêl Corwynt Cariad?

Os felly, beth am edrych i gyfeiriad y capel bach neu'r capeli bach agosaf atoch chi, a gweithio gyda'ch gilydd?

Gallech wahodd aelodau'r capel bach neu'r capeli bach agosaf atoch chi (a

waeth i ni fod yn onest – dyw'r pellter rhyngom ddim yn enfawr fel arfer) am baned a chacen neu gacen a bisged rhyw fore/prynhawn gan ofyn am gyfraniad. Does dim rhaid defnyddio'r



capel neu'r festri – byddai'r croeso yn sicr yn gynhesach ar aelwyd aelod sy'n barod i agor drws ei gartref er lles pobl y Philipinas. O wneud hyn yn rheolaidd dros y flwyddyn, bydd y cyswllt a'r cyfeillgarwch rhwng yr eglwysi yn cryfhau, a'r casgliad at Apêl Corwynt Cariad yn cynyddu.

Ystyriwch y peth!

Cofiwch: *'Mae dau gyda'i gilydd yn well nag un. Wrth weithio gyda'i gilydd mae'r ddau berson ar eu hennill.'* (Llyfr y Pregethwr 4.9)

Parch Catrin Roberts



# John Leeding (1949-2016)

Gyda thristwch mawr y cofnodir marwolaeth y cyfaill a'r brawd hynaws, John Leeding, Glannant, Tre Taliesin. Gwelir ei golli yn aruthrol, nid yn unig yn eglwys Rehoboth lle'r oedd yn flaenor, ac yn ysgrifennydd y Cyhoeddiadau, ond hefyd yng ngofalaeth y Garn a henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro. John oedd ysgrifennydd Pwylgor yr Ofalaeth ac fel y gŵyr ei gyd-aelodau roedd yn hollol ddiabynadwy yn ei waith. Cyflawnai bob dim yn dawel a diffwdan ac roedd ei bersonoliaeth addfwyn a diymhongar yn ennyn ein serchiadau oll. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf derbyniodd y swydd o fod yn un o ysgrifenyddion y Cylchoedd Pregethu yn yr Henaduriaeth ac yn olygydd y Blwyddlyfr. Nodwedid ei waith gan drylwyrder a chywirdeb llwyr.

Er ei eni a'i fagu yn swydd Efrog, daeth John yn Gymro i'r carn ac roedd ei Gymraeg yn rhugl a naturiol. Llyfrgellydd ysgol ydoedd o ran ei alwedigaeth, a threuliodd ei yrfa yn gweithio i Cyngor Sir Dyfed ac wedi hynny, Cyngor Sir Ceredigion.

Er na chafodd John ei eni i deulu Cristnogol, daeth yn Gristion o argyhoeddiad a medrai dystio fod Iesu wedi dod i mewn i'w fywyd, fel y dengys y llythyr hwn a ysgrifennodd ataf ym mis Ebrill 2008. Atgynhychir ef yn awr gyda chaniatâd y teulu.

## Parch. Wyn Morris, Bow Street

Fel rydych yn gwybod dydw i ddim yn dweud llawer yn y dosbarth Feiblaidd, Yn wahanol i aelodau eraill y dosbarth, doedd neb o nheulu yn mynychu capel nac eglwys, a ni chefais fagwraeth grefyddol. Fy unig gysylltiad â chrefydd pan oeddwn yn ifanc oedd drwy 'Hymns, Ancient and Modern' yng ngwasanaethau boreuol yr ysgol.

Ar ddechrau'r saithdegau, deuthum i'r Coleg Llyfrgellwyr yn Aberystwyth, a symud i Flaenpennal, i'r Tŷ Capel. Rhan o amodau'r rhent oedd glanhau'r capel a chael y pregethwr i ginio bob yn ail Sul. Wrth dwstio'r pulpud, byddwn yn agor y Beibl a syllu arno, ond doeddwn i ddim yn siarad Cymraeg amser hyn. Ar ôl tua blwyddyn a hanner, roeddwn wedi dysgu digon i fedru dilyn y bregeth, ond mi ges drafferth mawr gyda iaith y Beibl.

Daeth y cyfnod hwn yn fy mywyd i ben yn 1976, pan symudais i fflat yn Aberystwyth, a dechrau mynd allan i yfed bron bob nos. Ar yr un pryd, roeddwn yn chwilio am ryw beth o hyd a dechreuais ymddiddori ym Mwdhiaeth. Rwy'n credu fod Bwdhiaeth yn apelio at bobl 'ôl-grefyddol' y Gorllewin am ei fod yn rhoi pwyslais ar beth mae'r unigolyn yn gallu gwneud i weithio mäs ei achubiaeth ei hunan. Eto, roedd rhywbeth ar goll o hyd.

Ym 1979, symudais i Daliesin a dechrau mynd i gapel Soar, Tre'r-ddôl gyda Mai

a'i theulu. Am flynyddoedd, dysgais lawer am y ffydd Gristnogol, ond nid oedd yn cyffwrdd ar fy mywyd. Roeddwn yn gwybod y dylai fod yn fwy na hynny, a theimlais fel rhywun yn edrych trwy ffenestr siop, a'r gwydr rhyngddo fi a'r pethau tu mewn. Doeddwn i ddim yn cael hi'n hawdd i weddio, ond darllenaais rhywle fod y 'Jesus Prayer' yn dweud y cwbl oedd angen. Dechreuais weddio wrth yrru o gwmpas y sir gyda'm gwaith, 'Lord Jesus Christ, Son of God, have mercy on me, a sinner', a cheisio canolbwyntio ar ystyr y geiriau. O'r diwedd, cefais ateb.

Un diwrnod, ar y ffordd i Lamed (nid Damascus), rhwng Blaenplwyf a Llanrhystud, teimlais rhyw bŵer yn dod i mewn i mi o'r tu allan. Roedd yna deimlad corfforol – aeth fy mrest yn dynn wrth i ryw beth fy llenwi, ac roedd gwres i'w deimlo tu mewn hefyd. Ond roedd y teimlad emosiynol yn fwy syfrdanol. Geiriau C. S. Lewis, 'Surprised by joy' ydy'r disgrifiad gorau. Daeth yn sydyn ac yn hollol annisgwyl a 'Beth yw hyn?' Hefyd roedd sicrwydd o fod yn sâff am fod rhywun yn gofalu amdanaf a, mwy na dim, llawenydd. (Dyw 'Yorkshiremen' a 'llawenydd' ddim yn eiriau sydd yn ymddangos yn yr un frawddeg yn aml). Rwy'n cofio lot o chwerthin am beth oedd yn digwydd, a chanu emynau. Doeddwn i ddim yn teimlo mewn rheolaeth dros fy hun, ond roedd rhywun mewn rheolaeth. Ecstasi oedd y teimlad efallai, ond nid histeria. Rwy'n argyhoeddiedig y cefais brofiad real a dim un dychmygol. Parodd hyn am dros hanner awr. Dw i ddim yn gwybod pwy yrrodd i Lamed – fi oedd



John Leeding yn arwain taith Mari Jones

yn y sêdd, ond nid fi oedd wrth y llyw. Mae'n rhaid fod yr effaith yn dal arnaf pan gyrhaeddais, oherwydd dywedodd rhywun, 'Rwy'ti'n edrych yn hapus iawn am ryw beth'. Gwenais, ond ddwedais i ddim byd. A dw i ddim wedi dweud dim byd tan heddiw.

Nid Paul, na Howel Harries, na John Wesley ydw i. Rwy'n teimlo mwy fel y dyn a gafodd un gôd o arian a'i guddio yn y ddaear. Rwy'n cofio chi'n dweud mewn un dosbarth, petai rhywun yn dod yn Gristion, byddai'r bobl o gwmpas yn sylwi. Dw i ddim yn gwybod a sylwodd Mai ar unrhyw newid; hi fyddai'r cyntaf i ddweud nad ydwyf fi ddim yn haws i fyw gyda. Rwy'n fwy ymwybodol yn awr o'm ffaeiddau fel Cristion. Rwy'n dal i ffoli'n hawdd dros bethau'r byd. Rwy'n dal i gael amheuan o bryd i'w gilydd, ond mae'r amheuan yn awr amdanaf fi fy hunan: – pam ydw i mor hunanbwysig i feddwl fod Duw â unrhyw ddiddordeb ynof, neu sut mae Duw yn caru rhywun diwerth fel fi? Un peth na allaf fyth amau rhagor yw fod Iesu yn fyw ac yn barod ac yn awyddus i dderbyn ni heddiw, fel erioed.

## CAMU a Dyfodol Eglwys Bresbyteraidd Cymru (parhad)

- estyn gwahoddiad i'n partneriaid eciwmeniaidd gyfarfod i ymchwilio i'r posibilrwydd o rannu lleoliad ein Cyfarfodydd Blynyddol i hyrwyddo trafodaethau gyda'n gilydd ar faterion sydd o ddiddordeb cyffredin, ac i hyrwyddo trafodaethau amffurfiol ynghyd â rhannu cymdeithas. Ymhellach, gallai y cyfarfod hwn ymchwilio i sut y medrem rannu adnoddau wrth ystyried gweinyddu ein Heglwys.*
- gofyn i Adran y Gweinidogaethau i weithredu'n strategol yn y defnydd gorau o'n hadnoddau mewn gweithwyr, er sicrhau ein bod yn gosod gwasanaethu ein heglwys yn lleol fel blaenoriaeth bob amser.*

Beth am fywyd a chenhadaeth ein cynulleidfa oedd lleol?

Credaf y dylem wneud hynny allwn ni i

helpu ein heglwys lleol sydd am dderbyn yr help hwnnw.

Oni fyddai'n wefreiddiol clywed rhai o'n haelodau ni yn dweud yn yr un modd a wnaeth y bobl wedi i Nehemeia siarad â hwy? 'Gadewch inni godi i fyny ac adeiladu.'

Fy ngobaith i yw gweld eglwys y bydd plant, pobl ifanc, teuluoedd ac oedolion wrth eu bodd yn perthyn iddynt, rhai y byddant wrth eu bodd yn eu mynychu.

Ac mae'n rhaid i weithwyr y Gwasanaeth Plant ac Ieuenctid rannu'r un weledigaeth!

Dylem weithio gyda'n gilydd fel tîm i geisio gwasanaethu ein cynulleidfa oedd lleol er mwyn helpu gyda phob agwedd o fywyd yr eglwys. Mae'n heglwys lleol angen pob oedran er mwyn bodoli a thyfu.

**Gwyn Rhydderch (Parch)  
Cyfarwyddwr Gwasanaeth Plant  
ac Ieuenctid EBC**

(i'w barhau yr wythnos nesaf)